



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).



#Diolch



Wrth i flwyddyn addysgol hynod o anodd ddirwyn i ben, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gennych chi a'ch cyd-weithwyr i addysgu eich dysgwyr mewn amgylchiadau hynod o heriol. Bu datblygu a gweithredu strategaethau i ofalu am iechyd a lles eich staff a'ch pobl ifanc yn gyflawniad aruthrol, ac yn gyflawniad y dylech chi'n bersonol fod yn falch iawn ohono.

Ochr yn ochr â'r amryfal heriau i chi ddod ar eu traws eleni, roedd aildanio ac ailgadarnhau'r berthynas gadarnhaol o fewn cymuned yr ysgol yn amlwg iawn yn eich meddwl. Mae rhoi'r cynlluniau hyn ar waith wedi golygu blaenoriaethu iechyd a lles dysgwyr, staff ac oedolion ar safleoedd ysgolion. Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth arweinwyr, staff, llywodraethwyr a theuluoedd ein hysgolion y profiad o ddychwelyd i'r ysgol yn un cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, cafwyd adborth hynod o gadarnhaol gan blant a'u rhieni.

Ansicrwydd ynghylch pennu graddau oedd yn wynebu dysgwyr hŷn, ac amserlen a chynnwys a oedd yn newid ar bwyntiau allweddol. Rydych wedi ymateb yn wych i'r her hon, ac er bu'r llwybr yn arw ac anodd, rydych wedi gwneud i'r broses weithio ar gyfer ein dysgwyr hŷn.

Rydym ni'n llwyr werthfawrogi'r heriau dybryd sydd o'n blaenau gydag agenda Adnewyddu a Diwygio sylweddol i ni fynd i'r afael â hi. Mae ein perthynas waith gadarnhaol yn sylfaen gref iawn i'n helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn gyda'n gilydd.

Gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn ddifffuant, fel eich ymrwymiad parhaus i gydweithio a chydweithredu. Mae trafodaethau adeiladol wedi digwydd, a byddwn ni'n parhau i weithio gyda chyd-weithwyr ledled y rhanbarth er mwyn sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd gyda'n gilydd. Gallwch fod yn dawel eich meddwl y byddwn yn parhau i flaenoriaethu cymorth i chi a'ch staff addysgu.

Pe byddech am drafod unrhyw beth dros yr haf, cysylltwch â naill ai Arweinydd Craidd eich Awdurdod Lleol, ymgynghorydd cyswllt eich ysgol neu Marc B Hughes/Ellyn V Jones.

Diolch diffuant i chi, eich staff a chymuned eich ysgol am bopeth rydych wedi'i wneud.


Dymuniadau gorau i chi gyd, cadwch yn ddiogel a mwynhewch seibiant haeddiannol iawn dros yr haf.

[Cliciwch yma](#) am gopi o'r llythyr.

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



TEDx GwE

Pleser o'r mwyaf yw eich gwahodd i fod yn rhan o'n digwyddiad TEDxGWE ar gyfer TED COUNTDOWN mewn partneriaeth efo Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adfywio Cymru a phartneriaid strategol eraill.

Mae TEDx yn ddigwyddiad i siaradwyr gyflwyno syniadau mawr y mae ganddynt wybodaeth helaeth amdanynt. Y gwahaniaeth gyda'n digwyddiad ni yw mai ein pobl ifanc fydd y siaradwyr. Ein nod yw dod â disgyblion o bob oed at ei gilydd i siarad am yr Argyfwng Hinsawdd a chreu syniadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Ein gobaith yw arddangos syniadau pobl ifanc o bob cwr o'r rhanbarth, gan siarad am brosiectau newydd ac arloesol y maent wedi meddwl amdanynt i helpu i ymladd yn erbyn yr argyfwng. Gobeithio bydd y llwyfan hwn yn help iddynt gael eu clywed, ac yn gwneud i arweinwyr y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat ddefro a chymryd sylw. Credwn fod gan ein pobl ifanc y potensial i ysbrydoli eraill ac i brocio trafodaethau sydd o bwys. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gael deddfwriaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy gyda Deddf arloesol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym am ddatblygu hyn a'r cyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol a thymor hir i genedlaethau heddiw a fory, gyda phobl ifanc wrth wraidd gyrru'r newidiadau hyn.

Os hoffech fod yn rhan o hyn yna mae angen i chi wneud dau beth:

1. [Dilyn y ddolen](#) i gofrestru diddordeb. Fe fyddwn ni wedyn yn anfon atoch ddolen i becyn syniadau.
2. Anfon fideo 60 eiliad o ddisgyblion ar Flipgrid (bydd y ddolen ar gael gyda'r pecyn adnoddau) sy'n cyfleu eich syniad, eich materion neu eich ffocws a'r hyn rydych am i arweinwyr, cymunedau a'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau yng ngogledd Cymru ei wneud. Gall hyn fod yn grwpiau ac yn unigolion o unrhyw oedran.

Cesglir yr holl fideos a bydd arweinwyr ar hyd a lled gogledd Cymru yn eu gwyllo.

Cynhelir digwyddiad TEDx, fydd yn cael ei ffilmio, ar 1 Tachwedd yn Theatr Clwyd er mwyn i nifer o bobl ifanc gael cynulleidfya fyw a llwyfan i rannu eu barn. Byddwn yn rhoi cefnogaeth i ddatblygu'r sgwrs TED a pheth hyfforddiant a chefnogaeth gyda siarad cyhoeddus. Byddwn yn rhannu cam nesaf y broses ym mis Medi.

Cynnig Proffesiynol GwE

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Pennwyd dyddiadau ym mis Medi a Hydref ar gyfer sesiynau briffio cenedlaethol Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG), Mentoriaid Sefydlu ANG a Gwirwyr Allanol ANG 2021-22. Cliciwch [yma](#) am wybodaeth bellach am sut i ymuno â'r sesiynau, yn ogystal â'r holl ddyddiadau.



Cyfle ym Maes Cymell i Fentoriaid Sefydlu ANG [MS]

Rydym yn cynnig cyfle cyffrous i fentoriaid sefydlu gymryd rhan mewn hyfforddiant cymell i'w cynorthwyo gyda'u rôl o gefnogi athrawon newydd gymhwysu.

Gwahoddir mentoriaid sefydlu profiadol gyda chyfrifoldebau arweinyddiaeth ysgol i ymgeisio am **le wedi'i gyllido ar y Rhaglen Genedlaethol Cymell ar gyfer Mentoriaid Sefydlu (MS), a gymeradwywyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL).**

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth am y Rhaglen a sut i wneud cais.



Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Rydym yn falch o rannu dyddiadau â chi ar gyfer carfanau nesaf y Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth cenedlaethol.

Noder, yn benodol, lansiad ar **01/07/2021** o'r **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP**. Rhydd hyn gyfle i ddarpar ymgeiswyr gychwyn ar eu gwaith paratoi. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio. Trefnir sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr yn fuan yn nhymor yr hydref ac fe'ch cyngorir yn gryf i fynychu un o'r sesiynau hynny cyn ymgeisio.

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol

Ceisiadau yn agor	14/09/2021
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 07/10/2021
Sesiwn rhagarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/2021
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr

Ceisiadau yn agor	21/09/2021
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 14/10/2021
Sesiwn rhagarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/2021
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP

Lansio'r Rhaglen	01/07/2021
Sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr	Medi 2021
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 22/10/2021
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2022
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2023

Cyfle cyffrous i Gynorthwyywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Cyfleoedd gyda GwE

Swyddog Prosiect - Ein Llais Ni

SWYDD DROS-DRO HYD AT HYDREF 2022

Rydym yn awyddus i benodi person brwdfrydig i ymuno â chynllun cwbl unigryw i hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yng Ngogledd Cymru. Bydd y cynllun yn gyfle i aildanio a gwreiddio sgiliau gwrandao a siarad wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cwricwlwm i Gymru gan ystyried strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhyngwladol. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i ysgolion gydweithio fel tîm ymchwil gweithredol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor a GwE; gyda'r gwaith wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru.

DYDDIAD CAU: 10.00AM, DYDD IAU, 15 GORFFENNAF 2021

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Eleri Owen, Rheolwr Prosiect (elerillewelynnowen@GwEGogledd.Cymru).

Am ragor o fanylion a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679076.

'Ein Llais ni' *Rhagrybudd - Mynegi Diddordeb*



CYFLE ARLOESOL I DDATBLYGU MEDRAU LLAFAREDD YN Y GYMRAEG YNG NGOGLEDD CYMRU 2021-2022

Rydym yn awyddus i wahodd ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion i ymuno â chyfle unigryw i ddatblygu a mireinio ymarfer er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yma yng Ngogledd Cymru. Bydd yn gyfle i aildanio a gwreiddio sgiliau gwrando a siarad wrth gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn Cwricwlwm i Gymru gan ystyried strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhyngwladol. Bydd cefnogaeth ar bob cam o'r daith wrth roi'r strategaethau ar waith a hynny dan arweiniad arbenigwr rhyngwladol ar hyrwyddo sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, sef Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor.

Ym mis Medi bydd gwahoddiad i wneud cais i ymuno â 'Ein Llais Ni'. Bydd yn gyfle i arbrofi er mwyn torri tir newydd a gwreiddio arferion a strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd Cymraeg blaengar fel rhan o'ch Cynlluniau Datblygu Ysgol a'ch ymyraethau ar lawr dosbarth yn dilyn y flwyddyn heriol ddiwethaf. Bydd hefyd yn gyfle i athrawon fyfrio ar ymchwil addysgol cyfoes a'i ymgorffori i'w harferion dosbarth dros gyfnod o flwyddyn.

Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Newyddlen ITM Dyfodol Byd-eang:

Cymraeg: <https://www.gwegogledd.cymru/cefnogaeth-cwricwlwm/ieithoedd-tramor-modern/>

Saesneg: <https://www.gwegogledd.cymru/curriculum-support/ieithoedd-tramor-modern/?lang=en>

CYFLEOEDD HYFFORDDI AR GYFER ATHRAWON YSGOLION CYNRADD

Cyfle am Gyllid ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol

Mae tîm Dyfodol Byd-eang GwE yn chwilio am ysgolion cynradd sydd am ddatblygu eu darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol wrth baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Rydym ni'n cynnig cyfle i nifer o ysgolion yng ngogledd Cymru **gael tanystrifiad i adnoddau Power Language Schools. Ariennir y tanystrifiad hwn yn llawn.**

Os oes gennych chi ddiddordeb ac yr hoffech wneud cais am y tanystrifiad blwyddyn hwn a ariennir yn llawn, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Prifysgol Agored 2021-2022

Rydym yn ffodus dros ben i fod mewn sefyllfa i gynnig **cyfle i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd** drwy'r Brifysgol Agored.

Ariennir y cwrs yn llawn gan Ddyfodol Byd-eang GwE. Os oes gennych chi, neu un o'ch cyd-weithwyr yn yr ysgol, ddiddordeb mewn cofrestru ar y cwrs, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Rhaglen Iaith a Llythrennedd (RILL)

HELPU EICH DYSGWYR I FOD YN DDARLLENWYR MWY RHUGL

Cofrestrwch yma ar gyfer y rhaglen ddarllen a deall atodol bwrpasol newydd ar gyfer dysgwyr CA2, sydd ar gael nawr ar gyfer pob ysgol ledled y rhanbarth. Wedi'i dylunio a'i darparu mewn cydweithrediad rhwng GwE, Prifysgol Bangor a CIERI, bydd cofrestru i fod yn rhan o'r rhaglen hon yn rhoi mynediad i chi i adnoddau am ddim, hyfforddiant llawn a chefnogaeth ddilynol. Mae'r cais ar sail y cyntaf i'r felin gyda mynediad at hyfforddiant digidol anghydamserol, wedi'i ddilyn gan sesiynau Cwestiwn ac Ateb byw. Gweler y dyddiadau sydd ar gael drwy glicio ar [y ddolen i'r ffurflen gais](#).

Helpu eich dysgwyr i fod yn ddarllenwyr mwy rhugl



Remote Instruction in Language and Literacy
www.rillresearch.org

Rhaglen atodol ar gyfer 'darllen' a 'darllen a deall', sy'n seiliedig ar dystiolaeth



Pecyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i dargedu datblygiad darllen dysgwyr



Fideos hyfforddiant a chanllawiau ar 'sut i...'

Canllawiau ar sut i fynd at adnoddau o'u deffnyddio.



Mae RILL yn becyn hyfforddiant cyflawn sy'n canolbwyntio ar egwyddorion 'darllen' a 'darllen a deall', er mwyn dysgu yn y dosbarth ac/neu o'r cartref

Yn cefnogi plant 7 i 10 oed

Am fwy o wybodaeth ac i gadw lle ar ein hyfforddiant RILL yn nhymer yr Haf neu'r Hydref, gallwch sganio'r cod QR neu glicio ar y ddolen isod:

<https://sway.office.com/gmG7pCS1GAwnkwDc?ref=Link>



SGANWCH FI

Gwella Rhuglder Darllen Disgyblion:

STRATEGAETHAU DARLLEN AILADRODDOL A GEIRIAU AMLDER UCHEL

Dyma ddwy strategaeth adeiladu rhuglder ar sail tystiolaeth a ddyluniwyd ac a gyflwynwyd mewn cydweithrediad rhwng GwE ac arbenigwyr darllen o'r Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil, Tystiolaeth ac Effaith Addysg (CIEREI), Prifysgol Bangor i helpu dysgwyr yn CA2 a CA3 sydd eisoes â sgiliau datgodi da ond sydd angen gwella eu rhuglder darllen er mwyn gwella eu sgiliau deall. Mae hwn yn adnodd rhad ac am ddim sydd ar gael i bob ysgol ledled y rhanbarth ac mae'n dod gyda hyfforddiant a chefnogaeth lawn, ar sail y cyntaf i'r felin, gyda mynediad at hyfforddiant digidol anghydamserol, wedi'i ddilyn gan sesiynau Cwestiwn ac Ateb byw. Gweler y dyddiadau sydd ar gael drwy glicio ar [y ddolen i'r ffurflen gais](#).

Gwella rhuglder darllen disgyblion





Strategaethau Darllen Ailadroddol a Geiriau Amllder Uchel
Mae deunyddiau rhuglder, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bellach ar gael yn Gymraeg a Saesneg



Technegau i ddatblygu rhuglder yw'r rhain, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i helpu disgyblion wella'u sgiliau darllen mewn Gymraeg a Saesneg. Maent yn addas i ddysgwyr sydd â sgiliau datgodi da ond sydd angen gwella eu rhuglder wrth ddarllen.



Mae'r deunyddiau yn addas i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 hyd at ben isaf Cyfnod Allweddol 3. Ymchwilwyr darllen ac awduron arbengol sydd wedi creu'r deunyddiau.



Bydd GwE yn darparu fideos hyfforddiant ac adnoddau i ysgolion, a chyngor ar weithredu hefyd.

Canllawiau ar sut i fynd at adnoddau o'u defnyddio.


Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais:

<https://forms.office.com/r/yzNzpyYf6>

Ebost:

Dr. Emily Roberts-Tyler
readingfluency@bangor.ac.uk

Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol



Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 2021-2022

Mae ein Rhaglen Datblygu Dysgu Ôl-16 yn cynnig cyfle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i wynebu heriau arweinyddiaeth ôl-16. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Rhaglen Bartneriaeth Lles ac Iechyd Meddwl Mind Cymru

Ar y cyd â Mind Cymru, bydd y pedwar consortia addysg rhanbarthol yn hwyluso cyfle i ddysgu'n broffesiynol (yn rhithiol, yn y Gymraeg a'r Saesneg) o fis Medi 2021:

Sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - targedir pob clwstwr ar draws y rhanbarth

Sesiwn 3 awr i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Cyflwynir i grwpiau o 16 aelod a rhoddir pecyn i'r aelodau fynd o'r sesiwn efo nhw. Rydym yn targedu un neu ddau unigolyn o bob clwstwr ar draws y rhanbarth. Mae'r sesiwn yn addas i holl staff y clwstwr. Er hynny, byddai'r aelodau yn dod yn Bencampwyr y Rhaglen Bartneriaeth Les, yn cyfarfod â'r Tîm Lles ddwywaith y flwyddyn ac yn gyfrwng i ddatblygu'r rhaglen, adnoddau cyfathrebu a ffynonellau cymorth i'w rhannu yn eu clwstwr eu hunain.

Mind - Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwaith a Chefnogi Staff

Sesiwn 3 awr, wedi'i hwyluso, a bydd pecyn ar gael i'w roi i ddysgwyr. Cyflwynir i grwpiau o 16 aelod, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r sesiwn rhithiol hwn yn targedu **Aelodau Uwch Dimau Arwain Ysgolion/Lleoliadau a'r ALL**. Byddai'r rhaglen hon yn cael ei harfarnu ac yn cael ei chynnal i fwy o aelodau, yn dibynnu ar y sylwadau cychwynnol.

Ceir rhagor o fanylion am y 2 sesiwn [yma](#).

Mae Sefydlu ANG yng Nghymru yn newid...

DYLAI POB YSGOL FOD YN BAROD YM MIS MEDI 2021 AR GYFER ANG

[Cliciwch yma](#) i weld y camau sy'n rhaid i bob ysgol eu dilyn er mwyn sefydlu ANG o fis Medi 2021 ymlaen.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â ieuanjones@gwegogledd.cymru

Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Rhaglen Meistr mewn Addysg Newydd

[Cliciwch yma](#) am y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Meistr mewn Addysg newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2021.



Ymgyrch Recriwtio Athrawon

Disodlwyd gwefan 'Addysgu Cymru' gan 'Addysgwyr Cymru'. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch yr haf hwn i hyrwyddo addysgu fel gyrfa i gynorthwyr dysgu, newidwyr gyrfa, graddedigion, myfyrwyr a rhieni sydd yn aros gartref. Bydd hyn yn cynnwys hysbysebion teledu a radio, a chyfryngau cymdeithasol.

Gweler www.addysgwyr.cymru i gael mwy o wybodaeth.

Os oes gennych chi stori ysbrydoledig am sut y daethoch chi i mewn i ddysgu y credwch y byddai'n werth ei rhannu trwy'r wefan, cysylltwch â ceriwilliams3@gwegogledd.cymru

Byddwch yn Driw i Chi'ch Hun Ar-lein

Mae pawb yn gallu mynd i'r fagl o gymharu eu bywydau â bywydau pobl eraill. Peidiwch â gadael i'r hidlydd eich twyllo! Ewch i'r dudalen [Byddwch yn driw i chi'ch hun ar-lein](#) ar gyfer ymarferwyr, teuluoedd a phobl ifanc sy'n sôn am hunan-barch a'r cyfryngau cymdeithasol ar 'Cadw'n ddiogel ar-lein'.

Mae'n cynnwys:

- gwybodaeth am fanteision a pheryglon defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- rôl dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol
- pwysau i 'ffitio i mewn' ar-lein
- awgrymiadau ar gyfer sicrhau bod eich profiad o'r cyfryngau cymdeithasol yn gadarnhaol
- dolenni i adnoddau ar gyfer cymorth pellach.

PEIDIWCH Â GADAEL I'R HIDLYDD
EICH TWYLLO



BYDDWCH YN DRIW I CHI'CH
HUN AR-LEIN



Cymdeithas Ddiogelwch
a Chymhellwch
Digital Resilience
in Education

Hwb®



SECONDIAD: Cynghorydd Proffesiynol - Ysgolion ac Awdurdodau Lleol (Cydlunydd Cenedlaethol PISA 2022)

Dymuna Llywodraeth Cymru dynnu eich sylw at gyfle am secondiad newydd: Cynghorydd Proffesiynol – Ysgolion ac Awdurdodau Lleol (Cydlunydd Cenedlaethol PISA 2022). [Cliciwch yma](#) am fanylion llawn y secondiad.

Bwrddir i'r secondiad gychwyn cyn gynted ag y bo modd, ac am ddwy flynedd o'r dyddiad cychwyn.

Dylai unrhyw un sydd am fynegi diddordeb yn y cyfle hwn anfon e-bost at Huw.Owen@llyw.cymru, gyda llythyr yn nodi eu diddordeb ac yn amlinellu eu profiadau a'u cymwysterau ar gyfer y rôl. Ni ddylai'r llythyr fod yn ddim mwy na 500 gair.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5yp ddydd Iau 15 Gorffennaf 2021**.

Diwygiadau cwricwlwm ac asesu. Arolwg: paratodau ar gyfer 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Arad a'r Brifysgol Agored yng Nghymru i gynnal arolwg ar baratodau ysgolion a lleoliadau eraill ar gyfer gweithredu'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu. Mae'r [arolwg](#) wedi'i anelu at benaethiaid, uwch-reolwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas gynhelir sy'n darparu addysg. Bydd ymatebion yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd o 2022. Arolwg 10-15 munud yw hwn a'r dyddiad cau yw **16 Gorffennaf 2021**. [Cliciwch yma](#) i gymryd rhan.

Ymgynghoriadau ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn gweithio i gyd-lunio'r ychwanegiadau penodol i ganllawiau'r cwricwlwm a nodwyd ym mis Ionawr 2020. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn paratoi Codau drafft yn unol â gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Maent yn gofyn am eich adborth ar y drafftiau hyn erbyn **16 Gorffennaf** fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu ar y cyd. Bydd y gweithgoreu ymarferwyr yn defnyddio eich sylwadau i helpu i fireinio'r drafftiau, cyn i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru gael eu diweddarau ar-lein yn yr Hydref. Ceir dolenni i'r dogfennau ymgynghori a'r ffurflenni ymateb [yma](#).



Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Rhaglen Gŵyl Hanes Cymru i Blant - Medi/Hydref 2021



Yn ddiweddar cafodd gwefan newydd a rhaglen Gŵyl Hanes Cymru i Blant 2021 eu lansio. Eleni, bydd yr ŵyl yn cynnig amrywiaeth eang o ffilmiau byrion, sgyrsiau a gweithdai ar-lein newydd sbon dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod tymor yr hydref.

Ar y wefan, gallwch bori drwy'r arlwy mewn da bryd ar gyfer tymor yr Hydref, a chofrestru eich diddordeb mewn gwahanol sesiynau - www.gwylhanes.cymru

Mae gweithgareddau ar gael ar gyfer pob oedran – o'r cyfnod sylfaen hyd at y chweched dosbarth. Bydd rhagor o weithgareddau yn cael eu cyhoeddi dros yr haf, felly cofiwch gadw golwg ar y wefan!

Cyfle i Gymryd Rhan: Prosiect Tegwch Ysgol Gyfan (Cymru)



Drwy gyfres o sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar-lein ac am ddim i athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn 2021/2022, bydd y prosiect Tegwch Ysgol Gyfan (Cymru) gan y Sefydliad Ffiseg yn helpu athrawon i adnabod y rhwystrau a allai fod yn cyfyngu ar ddyheadau eu disgyblion, a bydd yn dangos sut y gellir mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol gyfan.

Bydd pob sesiwn yn para 90 munud ar ôl yr ysgol a bydd rhywfaint o waith i'w wneud rhwng y sesiynau. Argymhellir bod dau athro'n cymryd rhan o bob ysgol fel bod modd rhannu'r hyn a ddysgir. Bydd y sesiynau'n cael eu cyflwyno yn Saesneg.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, anfonwch e-bost ataf: anita.shaw@iop.org

IOP Institute of Physics
Cymru | Wales

MA Astudiaethau Addysg (Rhan-Amser) Prifysgol Bangor

Mae ystod eang o fodiwlau ar gael ar gyfer y ffordd hyblyg hon o astudio ar gyfer eich cymhwyster Meistr, gan gynnwys Dwyieithrwydd, Cwnsela, Cymhwysedd Digidol, Dysgu Dysgwyr Dyslecsig, Arweinyddiaeth Addysg, Rheoli Ymddygiad, Theori Dyslecsia a sgiliau Mentora, a astudir dros bum penwythnos yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Mae sesiwn rhannu gwybodaeth 'Cwrdd â'r Tiwtor' ddydd Sul 19 Medi am 1pm i unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynychu'r cwrs neu sydd eisiau darganfod mwy - mae croeso mawr ichi ddod.

Am wybodaeth bellach neu i gofrestru lle yn y sesiwn 'Cwrdd â'r Tiwtor', cysylltwch â chyfarwyddwr y cwrs, Huw Phillips:

h.c.phillips@bangor.ac.uk

Senedd Ieuenctid Cymru

Mae ail ymgyrch etholiadol Senedd Ieuenctid Cymru wedi'i lansio, a gellir cofrestru pleidleiswyr erbyn hyn ar gyfer yr etholiad ym mis Tachwedd. Mae'r dyddiadau allweddol i'w gweld yma.

Dros y misoedd diweddar, mae staff o Dîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd wedi cynnal sesiynau ymgysylltu ar-lein i ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid at ddiben hyrwyddo Etholiad y Senedd, a gynhaliwyd yn diweddar, ynghyd â gwaith y Senedd a Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd y sesiynau hyn yn parhau i gael eu cynnal ar-lein, ond os ydych chi eisiau trafod y posibilrwydd o gynnal sesiynau wyneb yn wyneb, byddem yn hapus i drafod hynny gyda chi. Ffoniwch 0300 200 6565, neu anfonwch e-bost i contact@senedd.cymru os oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch cadw lle.

I gael cymorth neu ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i helo@seneddieuenctid.cymru, neu ewch i wefan y Senedd Ieuenctid <https://seneddieuenctid.senedd.cymru/>.

Newyddlen SSCE Cymru

Mae newyddlen ddiweddaraf SSCE Cymru ar gael yma.



Arolwg Ysgolion - Addysg Gerddoriaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth gerddoriaeth, a fydd yn datblygu canfyddiadau ac argymhellion yr 'Adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg' (2013), yr adroddiad 'Taro'r Tant' (Mehefin 2018), a'r 'Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth: Adroddiad Terfynol' (Ionawr 2020). Byddem yn gwerthfawrogi adborth ar y ffordd orau o ddarparu addysg gerddoriaeth yn y dyfodol er mwyn cefnogi dysgwyr a dylanwadu arnynt i fanteisio ar brofiadau cerddorol o safon uchel ac ennill y sgiliau i wireddu eu potensial yn y cwricwlwm newydd. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei chadw'n gyfrinachol gan Lywodraeth Cymru a'i defnyddio i lywio cynigion ar gyfer addysg gerddoriaeth mewn ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys opsiynau ôl-16.

Dilynwch y [ddolen hon](#) i gael mynediad at yr arolwg. Y dyddiad cau yw **16 Gorffennaf 2021**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

post@gwegogledd.cymru

